**DYLAN J. WILLIAMS** BA (Hons), MSc, MA, M.R.T.P.I
Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd
Head of Service Regulation and Economic Development

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Canolfan Fusnes Môn • Anglesey Business Centre
Parc Busnes Bryn Cefni • Bryn Cefni Business Park
LLANGEFNI
Ynys Môn • Isle of Anglesey
LL77 7XA

ffôn / tel: (01248) 752431/2435
ffacs / fax: (01248) 752192

Gofynnwch am / Please ask for: Dylan Williams
E-bost / Email: DylanJWilliams@anglesey.gov.uk
Ein Cyf / Our Ref: YM / EN010007
Eich Cyf / Your Ref: EN010007

Dyddiad / Date: 3.12.2018

Annwyl Kay,

**Archwiliad GCD Wylfa Newydd EN010007.**

**Cyflwyniad o awgrymiadau am Leoliadau. Archwiliadau Safle â Chwmni a Di-gwmni.**

**Cyflwyniad Terfyn 2.**

Gweler ynghlwm, awgrymiadau ar gyfer leoliadau Archwiliadau Safle â Chwmni a Di-gwmni yn nodi ein rhesymeg a chyfiawnhad.

Trafodwyd lleoliadau gyda'r ymgeisydd a bydd yr Awdurdod Archwilio yn nodi bod llawer yn debygol o gyd-fynd (er nad ydym wedi gweld cyflwyniad llawn a derfynol yr ymgeisydd).

Os oes angen rhagor o fanylion arnoch, peidiwch ag oedi i gysylltu â mi.

Yn gywir,

Dear Kay,

**Wylfa Newydd DCO Examination EN010007.**

**Submission of Suggested Locations. Accompanied and Unaccompanied Site Visits.**

**Deadline 2 Submission.**

Please find attached suggested locations for accompanied and unaccompanied site visits noting rationale and justification.

Locations have been discussed with the applicant and the Examining Authority will note that many are likely to align (although we have not seen the applicant's full and final submission).

Should you require any further detail please do not hesitate to contact me.

Yours sincerely,

[redacted]

**Dylan J. Williams**

**Pennaeth Gwasanaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd**

**Head of Service Regulation and Economic Development**

**Rheoleiddio a Datblygu Economaidd**

# Archwiliad GCD Wylfa Newydd EN010007

**Cyflwyniad o awgrymiadau am Leoliadau Archwiliadau Safle â Chwmni a Di-gwmni**

**Cyflwyniad Terfyn 2**

**Paratowyd gan: Swyddfa Rheoli Rhaglen Ynys Ynni**

**3 Rhagfyr, 2018**

| DIWR NOD 1 | | | |
|---|---|---|---|
| **Map (a chyfeirnod )** | **Man Stopio/Rhesymeg** | **Nodiadau** | **Cyfeirnod Grid AO** |
| Map 1 | **Pwynt Llanbadrig**<br>Gwerthfawrogi'r olygfa o'r rhan hon o'r AHNE a'r WCP yn cynnwys ardal Campws y Safle. | Ardal mynediad agored – maes parcio ger yr eglwys. Yn agos at Olygfan 11 (ffotogyfosodiad).<br><br>Gallai fod yn ddigwmni. | Sh: 376,945 |
| Map 2 | **Mynydd y Garn**<br>Golygfan 7 – yn dangos yr olygfa gorau o'r Dirwedd ac yn Weledol i safle WNDA a'r AHNE. Paratowyd ffotogyfosodiad (ffotogyfosodiad 7) sy'n cadarnhau ei rôl fel cyflwyniad i'r lleoliad. | Lleoliad hygyrch drwy hawl dramwy gyhoeddus ac yna i dir yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol ar hyd stepiau<br><br>Lle parcio cyfyngedig.<br><br>Gallai fod yn ddigwmni. | Sh: 314,906 |
| Map 2 | **Llanfairynghornwy**<br>Stopio yn y gilfan yn rhan ogleddol yr anheddiad lle mae'r golygfeydd mwyaf agored i'w cael. Yr anheddiad yw lleoliad golygfan 8 ond ar hyn o bryd nid oes ffotogyfosodiad wedi'i gynnwys | Gallai fod yn ddigwmni. | Sh: 321,910 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Map 3 | **Tregele**<br>Canolbwyntio ar ffryntiad yr A5025<br>- mae mainc a bwrdd gwybodaeth. Gofynnwyd am ffotogyfosodiad ychwanegol o Olygfan 18 yn agos at y lleoliad hwn i ddangos bwnd sgrin 7m y cyfnod adeiladu a **Thwmpath B.** | Os yw amser yn caniatáu, cerdded/gyrru i fyny at Gae Garnedd (10 munud neu 20 munud ar droed i ben draw Cae Garnedd). Gofynnwyd am ffotogyfosodiad o'r olygfan hon. | Sh: 356,926 |
| Map 4 | Symud ymlaen i Ardal Datblygu Wylfa Newydd i gynnwys:<br><br>**Twmpath coediog y Fonesig Sylvia Crowe**) - yn benodol y lleoliadau lle mae gwaith i'w wneud (e.e. torri coed a phlannu) a'r gwaith arfaethedig gan y Grid Cenedlaethol.<br><br>**Campws y Safle**– lleoliad MUGA mewn perthynas â'r ysgubor ystlumod, WCP, ffens ddiogelwch, blociau llety ar Drwyn Wylfa.<br><br>**Trwyn Wylfa** – dilyn WCP ar draws ardal Campws y Safle at Drwyn Wylfa cyn belled â Golygfan 10 | Parcio ym Maes Parcio'r Pysgotwyr<br><br>Byddai o fudd i HNP farcio llinell y ffens ddiogelwch o gwmpas campws y safle i'r ExAs allu deall agosrwydd y ffens a'r blociau llety at y WCP, Trwyn Wylfa, Tre'r Gof, y coetir hynafol a'r ysgubor ystlumod.<br><br>Os yw'n bosibl, h.y. os nad yw'r hawl tramwy cyhoeddus wedi cau, dychwelyd i Faes Parcio'r Pysgotwr ar hyd hawl tramwy cyhoeddus 20/002/1 ar hyd ochr ddeheuol ardal Campws y Safle i weld SoDdGA Tre'r gof yn agos. | Sh: 355,938 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | (gofynnwyd am ffotogyfosodiad ar gyfer y cyfnod adeiladu a gweithredu) ac yna i'r dwyrain ar hyd WCP at gornel ogleddol-ddwyreiniol Ardal Campws y Safle. | | |
| Map 5 | **Gardd Cestyll - Felin Gafnan, gardd dyffryn, gardd cegin, bwthyn y garddwr, lôn fynedfa, plot tŷ**<br>Lleoliad hanfodol, golygfeydd o bwys a lleoliad y morglawdd (i'w gweld), a lleoliadau'r safle trin dŵr gwastraff a llwyfan yr Orsaf Bŵer. Dylid cynnwys hefyd y cwt nofio/hen odyn (ased 106) a'r tŷ cwch (ased 100) yn gysylltiedig â Gardd Cestyll (wedi'u lleoli y tu allan i'r Lleoliad Hanfodol), tuag at yr orsaf bŵer bresennol ond yn hygyrch ar hyd llwybrau troed cyhoeddus (a gan y MOLF) | | Sh: 345,931 |
| Map 5 | **Cyfleuster Dadlwytho Morol (MOLF)** | | Sh: 347,934 |
| Map 6 | **Bae Cemlyn (Gorllewin)** | Defnyddio maes parcio gorllewinol | Sh: 329,934 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Ffotogyfosodiad o olygfan 25 – cerdded ar hyd rhan o WCP hyd at Drwyn Cemlyn (ardal mynediad agored) i ddangos yr AHNE a golygfeydd i'r dwyrain o'r rhan hon o WCP, yn cynnwys effeithiau WOLF a'r morglawdd. Cerdded tua 100m i'r dwyrain i'r maes parcio dros y gored ac i'r rhan uwch ym mhen gorllewinol y gefnen o raean bras (dal yn WCP). Mae'n dangos y golygfeydd sydd i'w gweld wrth gerdded ar hyd y gefnen | | |
| Map 6 | **Bae Cemlyn (Dwyrain)**<br>Ffotogyfosodiad o olygfan 27 cerdd o'r maes parcio dwyreiniol ar hyd y WCP o amgylch Trwyn Pencarrig/Cerrig Brith (ardal mynediad agored) cyn belled ag y bo angen i weld golygfeydd o Erddi Cestyll yn ogystal â golygfeydd rhagorol panoramig o Safle'r Brif Orsaf Bŵer, twmpathau DSC, MOLF a'r morglawdd. | Defnyddio maes parcio dwyreiniol | Sh: 336,931 |
| Map 7 | **Twmpath E**<br>Y twmpath agosaf at Fae Cemlyn fel y gwelir o Ffordd Cemlyn.<br>Ffotogyfosodiad o olygfan 19 | | Sh: 338,929 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | ar Ffordd Cemlyn ger Sŵn-y-Môr | | |
| Map 8 | **A5025 - datblygiad rhuban** Eiddo ar yr ochr Ogleddol gyda'r golygfeydd mwyaf agored ar draws y WNDA ac yn union wrth ymyl **Twmpath A** yn cynnwys ei wyneb dros dro - Ymweliad â Tir-a-môr-uchaf<br><br>Hanfodol i'r ExA allu gwerthfawrogi'r newidiadau gweledol ar raddfa fawr fydd yn effeithio ar y preswylwyr hyn nad yw Horizon wedi'u hasesu. | CSYM yn nodi bod Mr Dobson wedi gofyn am ymweliad safle (Tir-a-môr-uchaf). Bydd angen cytuno ar fynediad. | Sh: 362,930 |
| Map 9<br>Ffig 1 | **Cemaes**<br>Penrhyn/WCP - parcio ar Ffordd y Traeth cerdded i'r gorllewin ar hyd WCP at ymyl gorllewinol Porth Wylfa heibio i Olygfan 13 ychydig y tu hwnt i'r fan lle mae'n cwrdd â hawl tramwy cyhoeddus 20/002/3 at Olygfan 14 (ffotogyfosodiad) ac yna dychwelyd i Ffordd y Traeth at Sŵn y Don ar hyd hawl tramwy cyhoeddus 20/002/3. Mae CSYM wedi gofyn am ffotogyfosodiad yn agos at Sŵn y Don. | | Sh: 366,937 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Taith wrth fynd allan o WCP yn dangos y golygfeydd posibl i breswylwyr ym mhen gorllewinol Penrhyn yn ogystal â golygfeydd gorllewinol WCP i gyfeiriad WNDA a Safle'r Campws yng nghyd-destun Trwyn Wylfa.<br><br>Dychwelyd ar hyd hawl tramwy cyhoeddus 20/002/3 yn rhoi'r syniad gorau o nifer yr eiddo yn rhannau gorllewinol/uwch Cemaes ac ar hyd yr A5025 fydd yn cael eu heffeithio wrth i Dwmpath A flocio eu golygfeydd ar draws WNDA. | | |
| Map 9<br>Ffig 1 | **Cemaes – pen gorllewinol**<br>Parciwch ar Ffordd y Traeth ym mhen gogleddol hawl tramwy cyhoeddus<br>20/007/1 a dilynwch ei lwybr ar hyd y pen dwyreiniol at yr A5025. Mae'r pen gogleddol yn mynd drwy'r coetir a blannwyd yn 2003 ac felly mae'n dangos cyfraddau twf y gellir eu disgwyl ar gyfer WNDA/plannu twmpath A (5- 8m mewn 15 mlynedd). Mae'r rhan ganol yn hollbwysig gan ei bod yn | Os yw'n bosibl trefnwch gludiant yn y pen deheuol rhag gorfod cerdded yn ôl drwy Gemaes. | Sh: 369,936 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | dangos natur agored a drychiad golygfeydd o ffenestri a gerddi cefn ar gyfran o eiddo preswyl yn rhan orllewinol Cemaes | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | (Maes Cynfor a phen gogleddol Cae Derwydd).<br><br>Mynd trwy Olygfan 16 (ffotogyfosodiad). Yn y pen deheuol ewch i leoliad yr olygfan y gofynnwyd amdani ar ochr ddeheuol yr A5025 yn agos at ben deheuol Maes Capel. | | |
| Map 10 | **Cemaes - lleoliadau eraill**<br>Ffotogyfosodiad golygfan 12 - ewch i ben dwyreiniol Maes Capel, sydd ar dir ychydig uwch, a gyrrwch o amgylch Gwelfor yn rhan ddwyreiniol Cemaes (lleoliad arall lle mae CSYM wedi gofyn am ffotogyfosodiad) - mae'n dangos bod golygfeydd da i breswylwyr mewn rhai rhannau eraill o Gemaes. | Ymweld â cherbyd | Sh: 373,935 |

| DIWR<br>NOD<br>2 | | | |
|---|---|---|---|
| **Map (a chyfeirnod )** | **Man Stopio/Rhesymeg** | **Nodiadau** | **Cyfeirnod Grid AO** |
| Map 11 | **Parc Cybi**<br>Coetir presennol y mae CSYM yn awgrymu ei gadw (yn rhannol), newidiadau arfaethedig i ffurf y tir. Os bydd amser yn caniatáu ymweld â Threfignath a/neu Tŷ Mawr | | Sh: 257,806 |
| Map 12 | **Dalar Hir**<br>Er mwyn nodi gwrychoedd pwysig, newidiadau arfaethedig i ffurf y tir, lleoliadau'r ffyrdd a mynedfa'r safle, meysydd parcio, gorsaf fysys ac adeilad cyfleusterau, a'r addasiadau i'r dyluniad y mae CSYM yn eu hawgrymu i leihau'r effeithiau ar y gwrychoedd pwysig. | | Sh: 324,784 |


| | | | |
|---|---|---|---|
| Map 13 | **A5025 A55 cylchfan 3 i WNDA**<br>I ddangos pam fod CSYM yn gofyn am gyfyngu ar loriau HGV ar hyd y ffordd yn ystod blynyddoedd cynnar y prosiect (angen tynnu sylw: cynllun geometrig gwael cyffordd croesffordd y Fali)<br>cerbydau wedi parcio drwy Lanfachraeth ac Ysgol<br>Rhyd Y Llan | | Sh: 294,792 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Map 14 a 15 | **Priffordd A5025 oddi ar y llinell**<br>Lleoliadau argloddiau yn Rhannau 3 a 5, addasiadau i lwybr y droedffordd amlddefnydd/lôn feicio ochr yn ochr â'r<br>the A5025 yn Rhan 5 | | S3 South: Sh: 317,815<br>S3 North: Sh: 316,835<br>S5 North: Sh: 319,861<br>S5 South: Sh: 315,871 |
| Map 16 | **Cyfleusterau Gorsaf Bŵer Oddi ar y Safle**<br>Nodi'r addasiadau y mae CSYM yn eu hawgrymu i ganiatáu mwy o sgrinio ar gyfer yr AHNE ac eiddo gerllaw | | Sh: 316,872 |
| Map 17 | **Dychwelyd ar hyd isffordd**<br>Trwy Dregele Llanfechell - Ty'n Ffrwd - Llannerchymedd - Llangefni. Tynnu sylw at ddefnyddio isffyrdd gan weithlu Wylfa Newydd | | Sh: 357,925<br>Sh: 369,912 |
| Map 18 a 19 | **Safleoedd iawndal SoDdGA** Cors Gwawr,<br>Cae Canol Dydd, Tŷ Du | | Tŷ Du: Sh: 397,936<br>Cae Canol: Sh: 472,780<br>Cors Gwawr: Sh: 494,762 |


Map 1: Maes parcio Pwynt Llanbadrig o Eglwys Llanbadrig




Map 2: Mynedfa Mynydd y Garn a chilfan Llanfairynghornwy




## Map 3: Golygfan o Dregele tuag at Dwmpath B



Map 4: Twmpath y Fonesig Sylvia Crowe, Campws y Safle a Thrwyn Wylfa o Faes Parcio'r Pysgotwyr



Map 5: Gardd Cestyll, Felin Gafnan, gardd y dyffryn a'r gegin, bwthyn y garddwr, lôn fynedfa, plot tŷ, a Chyfleuster Dadlwytho Morol (MOLF)



Map 6: Bae Cemlyn (dwyrain a gorllewin) o fynedfeydd y meysydd parcio










## Map 7: Twmpath E o ymyl y ffordd ger Sŵn Y Môr




Map 8: Twmpath A a datblygiad rhuban o ymyl ffordd yr A5025




## Map 9: Cemaes a phen gorllewinol Cemaes



Ffigur 1: Hawl Tramwy Cyhoeddus yng Nghemaes




Map 10: Lleoliadau eraill Cemaes o fannau uwch yn y pentref




## Map 11: Parc Cybi




## Map 12: Dalar Hir




Map 13: A5025 A55 Cyffordd 3 i WNDA




Map 14: Gwelliannau i'r Briffordd oddi ar y Llinell Rhan 3




Map 15: Gwelliannau i’r Briffordd oddi ar y Llinell Rhan 5



Map 16: Cyfleusterau'r Orsaf Bŵer oddi ar y Safle




Map 17: Llwybr isffyrdd o Dregele i Langefni



## Map 18: Safle Iawndal SoDdGA Tŷ Du



## Map 19: Safle Iawndal SoDdGA Cae Canol-dydd a Cors Gwawr



**End of Schedule**